**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2000**

## Y Cefndir

Mae Cyfarwyddeb y Comisiwn Ewropeaidd 95/36/EC yn gosod meini prawf penodol ar gyfer pudeb mewn lliwiau a ddefnyddir mewn bwydydd.

Gweithredwyd y meini prawf hyn ym Mhrydain Fawr gan Reoliadau Lliwiau mewn Bwyd ("y prif Reoliadau") a wnaed o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

Diwygiwyd Cyfarwyddeb 95/36/EC gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 1999/75/EC fel y newidir y fanyleb ar gyfer y lliw "E160a(i) Mixed Carotenes". Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau i adlewyrchu'r newid hwn.

Gwneir newidiadau canlyniadol hefyd fel bod y cyfeiriadau at y prif Reoliadau mewn is-ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli yn cael eu dehongli fel cyfeiriadau at y prif Reoliadau fel y'u diwygiwyd bellach.

Gwnaed darpariaeth debyg eisoes yn Lloegr gan Reoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Lloegr) 2000 (OS 2000/481). (Gwnaethpwyd y Rheoliadau hyn ar y 17eg Chwefror 2000 ond fel rhai Cymru nid ydynt yn dod i rym nes y 30ain Mehefin 2000.)

1 Gorffennaf 2000 yw dyddiad cau'r CE ar gyfer gweithredu'r Gyfarwyddeb.

## Rheol Sefydlog 11.5

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

## Sylwadau Cyffredinol

Cafodd Gynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor gyfle cynnar i edrych ar y Rheoliadau felly does dim sylwadau heblaw am i nodi y dylai troednodiadau fod mewn fformat dwy golofn ar y tudalennau perthnasol yn y fersiwn brintiedig derfynol.

**DYLAN M HUGHES**
Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol
Y Pwyllgor Deddfau

**7fed Mehefin 2000**

Ein Cyf: LAD 01-01-090